Rhif: **WG16043**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Dyddiadau tymhorau ysgol: Cynigion ar gyfer diwygio'r ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgol yn cael eu pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru



Dyddiad cyhoeddi: **3 Medi 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **26 Tachwedd 2012**

# Dyddiadau tymhorau ysgol: Cynigion ar gyfer diwygio'r ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgol yn cael eu pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i newid y ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgol yn cael eu pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, er mwyn cysoni gwyliau ysgol ledled Cymru.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am eich barn ynglŷn â'r cynigion hyn.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio neu bostio ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad isod erbyn **26 Tachwedd 2012** fan bellaf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Cangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 3978
Ffacs: 029 2080 1044

© Hawlfraint y Goron 2012
WG16043

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


1. Rhagair gan y Gweinidog 1

2. Beth yw’r sefyllfa ar hyn o bryd? 2

3. Pam rydym yn cynnig newidiadau? 3

4. Pa newidiadau rydym yn eu cynnig? 5

5. Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld o ganlyniad i’r newidiadau hyn? 8

# 1. Rhagair gan y Gweinidog

Mae Llywodraeth Cymru am ddod o hyd i ffyrdd o helpu’r teuluoedd hynny sy’n cael problemau o ganlyniad i amrywiadau yn nyddiadau tymhorau ysgol ledled Cymru, ac o ganlyniad mewn gwyliau ysgol. Gall yr amrywiadau hyn mewn dyddiadau tymhorau ddigwydd rhwng gwahanol awdurdodau lleol, a hefyd rhwng gwahanol fathau o ysgolion mewn un awdurdod lleol.

Ein bwriad yw cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, fel bod amrywiadau’n digwydd yn achlysurol iawn a dim ond lle gellir cyfiawnhau hynny’n llawn.

Gellir gwneud hyn drwy gael y sefydliadau sydd â chyfrifoldeb ar hyn o bryd am bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru i weithio gyda’i gilydd, fel eu bod yn cytuno ar ddyddiadau tymhorau ysgol ar sail Cymru gyfan. Lle nad yw hyn yn digwydd, neu lle mae rheswm da i gredu bod angen newid dyddiadau tymhorau ysgol y cytunwyd arnynt, bwriada’r Llywodraeth gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gamu i mewn er mwyn gwneud yn siŵr bod dyddiadau tymhorau priodol yn cael eu pennu.

Cyhoeddir y cynigion hyn ar gyfer ymgynghoriad. Rwy’n gwahodd ac yn croesawu sylwadau gan yr holl randdeiliaid allweddol ar y syniadau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd eich cyfraniadau chi’n ein helpu i sicrhau ein bod yn sefydlu’r fframwaith priodol yng Nghymru.



**Leighton Andrews AC**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

## 2. Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

2.1 Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod awdurdodau lleol yn pennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion meithrin, tra mae cyrff llywodraethu'n gwneud hynny ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig . Mae hyn o ganlyniad i ddarpariaethau adran 32 o Ddeddf Addysg 2002.

2.2 Nid oes cyfrifoldeb cyfreithiol ar awdurdodau lleol nac ar gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i weithio gyda'i gilydd er mwyn cysoni dyddiadau tymhorau ledled Cymru.

2.3 Yn ychwanegol at hyn, nid yw'r gyfraith bresennol yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd a chadw trefn ar y broses o bennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol.

2.4 Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn cynllunio dyddiadau tymhorau ysgol gymaint â phum mlynedd ymlaen llaw ac yna'n anfon y dyddiadau hynny i Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru). Nid yw'r dyddiadau tymhorau ysgol hyn yn cynnwys dyddiadau ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir nac ysgolion sefydledig, er bod y dyddiadau tymhorau a bennir gan gyrff llywodraethu'r ysgolion hyn yr un fath yn aml â'r dyddiadau tymhorau a bennir gan awdurdodau lleol.

# 3. Pam rydym yn cynnig newidiadau?

3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol yn ddiweddar mewn gohebiaeth, gan rieni disgyblion yn bennaf, yn ymwneud â'r gwahanol ddyddiadau tymhorau a bennir gan awdurdodau lleol a'r problemau y gall hyn ei achosi i rai teuluoedd. Mae'r problemau hyn yn cynnwys anawsterau wrth geisio dod o hyd i ddarpariaeth gofal plant, yn ogystal â chostau gofal plant ychwanegol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhiant/gofalwr sy'n dysgu mewn ysgol a gynhelir gan un awdurdod lleol, ond sydd â'i blant yn ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol arall, wedi cael dyddiadau gwahanol ar gyfer gwyliau'r Pasg 2012. Gallasai hyn yn ei dro olygu bod ar y teulu angen gofal plant ychwanegol, a'i fod yn gorfod dod o hyd i arian i dalu'r costau ychwanegol hyn o gyllideb y teulu.

3.2 Mae yna broblem hefyd ambell waith â dyddiadau tymhorau sy'n cael eu pennu gan gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynhelir ac ysgolion sefydledig, a all fod yn wahanol i'r dyddiadau tymhorau a bennwyd gan yr awdurdod lleol y mae'r ysgol wirfoddol a gynhelir neu'r ysgol sefydledig wedi ei lleoli yn ei ardal. Er enghraifft, bydd ysgolion ffydd fel arfer ar agor yn ystod Wythnos y Pasg a byddant yn cymryd Dydd Gwener y Groglith a'r bythefnos ganlynol fel gwyliau'r Pasg. Bydd rhai awdurdodau lleol yn pennu'r un dyddiadau tymhorau â'r rhain ar gyfer eu hysgolion cymunedol a'u hysgolion gwirfoddol a reolir fel nad yw rhieni/gofalwyr yn wynebu anawsterau gofal plant. Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol eraill yn dewis cael Wythnos y Pasg yn ei chyfanrwydd a'r wythnos ganlynol fel gwyliau'r Pasg.

3.3 Os yw rhieni/gofalwyr yn gweithio mewn ysgolion cymunedol neu ysgolion gwirfoddol a reolir yn yr ardaloedd awdurdodau lleol hyn, ond bod eu plant yn mynd i ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu i ysgol sefydledig (neu fel arall), yna gallai dyddiadau gwyliau'r Pasg achosi anawsterau gofal plant i'r teuluoedd hyn er bod ysgol y plant yn yr un ardal awdurdod lleol â lle mae eu rhieni/gofalwyr yn gweithio. Yn yr un modd, os oes gan deulu blentyn iau sy'n mynd i ysgol gynradd wirfoddol a reolir a phlentyn hŷn sy'n mynd i ysgol uwchradd wirfoddol a gynorthwyir, gallai hyn hefyd achosi anawsterau gofal plant lle mae'r plentyn hŷn o oed ysgol uwchradd yn dal yn ddigon ifanc i fod angen gofal plant.

3.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ynglŷn â phroblem gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol wrth bennu dyddiadau tymhorau ysgol. Fel y corff cyffredinol sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yng Nghymru, mae CLlLC yn ymwybodol o'r problemau sy'n gysylltiedig ag amrywiadau yn nyddiadau tymhorau ysgol rhwng awdurdodau lleol ac mae wedi ceisio cael cytundeb rhwng y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ond yn ofer hyd yn hyn. O ganlyniad, mae amrywiadau mewn dyddiadau tymhorau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yn debygol o barhau.

3.5 Rydym yn gobeithio y bydd newid y trefniadau fel bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn pedwar 'consortia' rhanbarthol yn helpu i leddfu problem amrywiadau mewn dyddiadau tymhorau ysgol. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y bydd hyn yn digwydd, a chan fod dyddiadau tymhorau a gwyliau'n cael eu pennu hyd at bum mlynedd ymlaen llaw mae'n bosibl na fydd cytundeb ar unwaith ynglŷn â chysoni dyddiadau. Ar ben hyn, er y gallai gweithio mewn consortia helpu i gysoni dyddiadau

tymhorau mewn ardaloedd consortia awdurdodau lleol, nid oes sicrwydd y bydd dyddiadau tymhorau rhwng y gwahanol ardaloedd consortia yn cael eu cysoni.

3.6 Hyd yn oed os cytunir i gysoni dyddiadau tymhorau rhwng awdurdodau lleol, gallai cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ddal i ddewis pennu dyddiadau tymhorau gwahanol i rai'r awdurdodau lleol. Byddai hyn yn golygu na fyddai dyddiadau ysgolion yng Nghymru'n cael eu cysoni'n llwyr, a gallai rhai teuluoedd sydd â phlant mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sefydledig wynebu anawsterau gofal plant o hyd.

# 4. Pa newidiadau rydym yn eu cynnig?

## Newidiadau i'r gyfraith bresennol – crynodeb

4.1 Nid yw'r gyfraith bresennol yn:

- rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol nac ar gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i weithio gyda'i gilydd er mwyn cysoni dyddiadau tymhorau ledled Cymru
- yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd a chadw trefn ar y broses o bennu dyddiadau tymhorau.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid diwygio'r gyfraith bresennol er mwyn cyflwyno'r ddau newid hyn. Bydd y diwygiadau hyn yn cael eu gwneud mewn Bil yn y dyfodol, yn amodol ar y farn a fynegir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

## Mae gan y Llywodraeth bum cynnig ar gyfer newid:

4.2 Yr hyn y byddai'n well gennym ei weld yn digwydd yw awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol yn trafod pennu dyddiadau tymhorau gyda'i gilydd ac yn cytuno ar ddyddiadau tymhorau wedi eu cysoni ymhlith ei gilydd. Felly, ein **cynnig cyntaf** yw bod cyfrifoldeb yn cael ei roi i bob awdurdod lleol ac i gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd er mwyn cymryd pob cam rhesymol i ddod i gytundeb ynglŷn â dyddiadau tymhorau. Mae hyn yn golygu y byddai awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol yn gorfod gweithio gyda'i gilydd fel hyn bob amser, er mwyn cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

4.3 Ein **hail gynnig**, sy'n adeiladu ar y cyntaf, yw bod Gweinidogion Cymru'n cael y disgresiwn – i bob pwrpas – i bennu dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer pob ysgol yng Nghymru, pe baent yn credu bod angen gwneud hynny. Credwn mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy roi pŵer disgresiwn i Weinidogion Cymru i ganiatáu iddynt ddweud wrth awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig pa ddyddiadau tymhorau ysgol y mae'n rhaid iddynt eu cael. Ystyrir hyn fel pŵer i "gyfarwyddo" awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu, a byddai'n cael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru dim ond pe baent yn credu bod ei angen.

4.4 Yn ymarferol, credwn y bydd ein **cynnig cyntaf a'n hail gynnig** yn gweithio drwy:

- roi cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol i gymryd pob cam rhesymol i ddod i gytundeb ynglŷn â dyddiadau tymhorau gyda phob awdurdod lleol arall yng Nghymru
- rhoi cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol ac ar gyrff llywodraethu pob ysgol sefydledig ac ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd wedi eu lleoli yn yr ardal awdurdod lleol honno i gymryd pob cam rhesymol i ddod i gytundeb ynglŷn â dyddiadau tymhorau.

4.5 Ein **trydydd cynnig** yw y byddem yn hoffi i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu orfod dangos eu bod wedi cytuno ar ddyddiadau tymhorau. Rydym yn nodi ym mharagraffau 4.6–4.9 isod sut rydym yn credu y gallai hyn weithio.

4.6 Cyn gynted ag y bydd dyddiadau tymhorau wedi cael eu cytuno rhwng:

- pob awdurdod lleol
- phob awdurdod lleol a phob corff llywodraethu (yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig) yn yr ardal awdurdod lleol honno

bydd pob awdurdod lleol yn paratoi llythyr sy'n nodi'n ysgrifenedig y dyddiadau tymhorau y cytunwyd arnynt. Bydd y llythyr yn cael ei lofnodi gan gynrychiolydd o'r awdurdod lleol a chorff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir ac ysgol sefydledig yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw, ac yna'n cael ei anfon i Lywodraeth Cymru.

4.7 Bydd y dyddiadau tymhorau a fydd yn cael eu hysbysu i Lywodraeth Cymru yn y llythyrau hyn yn orfodol, oni bai fod pob un sydd wedi llofnodi llythyr a Gweinidogion Cymru'n cytuno fel arall neu bod Gweinidogion Cymru'n penderfynu defnyddio eu pwerau i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ynglŷn â phennu dyddiadau tymhorau.

4.8 Gan fod awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn pennu eu dyddiadau tymhorau gymaint â phum mlynedd ymlaen llaw, credwn ei bod yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol i lythyrau sy'n nodi'r dyddiadau tymhorau cytunedig gael eu hanfon i Lywodraeth Cymru o leiaf tair blynedd cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y maent yn ymwneud â hi. Er enghraifft, os yw llythyr yn cynnwys gwybodaeth am ddyddiadau tymhorau cytunedig ar gyfer blwyddyn ysgol 2019–2020, a bod y flwyddyn ysgol yn dechrau ar 5 Medi 2019, yna bydd angen i ni gael y llythyr hwnnw erbyn 4 Medi 2016.

4.9 Pe na bai llythyrau'n cael eu derbyn gan bob un o'r 22 awdurdod lleol sydd yng Nghymru o leiaf tair blynedd cyn dechrau blwyddyn ysgol, a/neu os nad yw'r dyddiadau tymhorau yn y llythyrau hynny'n cytuno, yna gallai Gweinidogion Cymru ystyried defnyddio eu pwerau i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu, fel bod modd cysoni dyddiadau tymhorau.

4.10 Fodd bynnag, ni fyddem yn dymuno cyfyngu pŵer i gyfarwyddo Gweinidogion Cymru i achosion lle na chytunwyd i gysoni dyddiadau yn unig. Credwn ei bod yn bwysig i Weinidogion Cymru gael y pŵer i ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau, hyd yn oed lle mae dyddiadau wedi cael eu cysoni. Mae hyn oherwydd y gallai Gweinidogion Cymru gredu bod angen newid y dyddiadau y cytunwyd arnynt gan bob awdurdod lleol a chorff llywodraethu, efallai er mwyn gwneud yn siŵr bod tymhorau ysgol mor gyfartal ag sy'n bosibl o ran hyd. Er enghraifft, gallai Pasg cynnar iawn olygu y byddai'n well gan Weinidogion Cymru i wyliau'r Pasg fod ar gyfer y pythefnos ar ôl Dydd Gwener y Groglith, fel bod modd osgoi tymor hir iawn yn yr haf. Hyd yn oed os yw pob awdurdod lleol a chorff llywodraethu perthnasol wedi cytuno y dylai gwyliau'r Pasg fod yn ystod Wythnos y Pasg a'r wythnos ganlynol, gallai Gweinidogion Cymru benderfynu defnyddio eu pwerau i gyfarwyddo

bod gwyliau'r Pasg i fod yn ystod y pythefnos ar ôl Dydd Gwener y Groglith yn lle hynny.

4.11 Credwn hefyd fod angen i Weinidogion Cymru allu defnyddio eu pwerau i gyfarwyddo bod dyddiadau tymhorau amrywiol yn cael eu pennu ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion neu wahanol ardaloedd awdurdod lleol (neu rannau o ardaloedd awdurdod lleol). Mae hyn oherwydd ei bod yn bosibl bod rheswm da ambell waith dros amrywio dyddiadau tymhorau fel hyn mewn blwyddyn benodol. Er enghraifft, gallai digwyddiad fel Cwpan Ryder olygu bod gwahanol wyliau ysgol yn ffordd synhwyrol o symud ymlaen i ysgolion mewn ardal benodol.

4.12 Felly, ein **pedwerydd cynnig** yw bod pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â phennu dyddiadau tymhorau:

- ddim yn cael ei gyfyngu i achosion lle nad yw awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu'n cytuno ar ddyddiadau tymhorau
- yn caniatáu i Weinidogion Cymru allu defnyddio eu pwerau i gyfarwyddo bod dyddiadau tymhorau gwahanol yn cael eu pennu ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion neu wahanol ardaloedd awdurdod lleol (neu rannau o ardaloedd awdurdod lleol).

4.13 Credwn ei bod yn bwysig bod ymgynghoriad ystyrlon yn cael ei gynnal cyn i Weinidogion Cymru benderfynu defnyddio eu pwerau i bennu dyddiadau tymhorau ysgol. Dylai hyn roi cyfle i ystyried barn pob grŵp sydd â diddordeb cyn i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ynglŷn â defnyddio eu pwerau. Gan adeiladu ar yr angen am ymgynghoriad ystyrlon, ein **pumed cynnig** yw y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i wneud rheoliadau er mwyn iddynt allu egluro'n fanwl sut y bydd ymgynghoriad ynglŷn â defnyddio eu pwerau yng nghyswllt dyddiadau tymhorau yn cael ei gynnal. Pe bai'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael derbyniad da a'r newidiadau a gynigir yn cael eu gwneud i'r gyfraith bresennol, yna cynhelir ymgynghoriad ar y polisi sydd wrth wraidd y Rheoliadau arfaethedig hyn.

## 5. Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld o ganlyniad i'r newidiadau hyn?

5.1 Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd y newidiadau i'r gyfraith bresennol yn golygu y bydd modd cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Dylai hyn olygu bod modd datrys y problemau gofal plant sy'n cael eu hwynebu ar hyn o bryd gan lawer o deuluoedd yng Nghymru o ganlyniad i'r ffaith nad yw dyddiadau tymhorau ysgol wedi cael eu cysoni.

5.2 Rydym yn rhagweld y bydd y cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i weithio gyda'i gilydd i ddod i gytundeb ynglŷn â dyddiadau tymhorau yn gymhelliant cryf i sicrhau bod dyddiadau'n cael eu cysoni. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa bresennol, lle nad oes cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i weithio gyda'i gilydd er mwyn cysoni dyddiadau tymhorau.

5.3 Pe na bai cytundeb rhwng awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ynglŷn â dyddiadau tymhorau, yna bydd Gweinidogion Cymru'n gallu ystyried defnyddio eu pwerau i sicrhau bod dyddiadau tymhorau yn cael eu cysoni drwy Gymru gyfan. Unwaith eto, mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa bresennol lle na all Gweinidogion Cymru ymyrryd a chadw trefn ar y broses o bennu dyddiadau tymhorau ysgol.

5.4 Os oes rhesymau da dros newid y dyddiadau tymhorau y cytunwyd arnynt rhwng awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu, neu i'r dyddiadau tymhorau mewn ardaloedd penodol neu ar gyfer mathau penodol o ysgolion fod yn wahanol i rai gweddill Cymru, yna bydd Gweinidogion Cymru'n gallu defnyddio eu pwerau i ganiatáu i'r rhesymau hyn gael eu hystyried. Ar hyn o bryd, nid yw Gweinidogion Cymru'n gallu ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau hyd yn oed pan fo rheswm da dros newid dyddiadau tymhorau neu iddynt fod yn wahanol.

5.5 Pa bryd bynnag y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried defnyddio eu pwerau yng nghyswllt dyddiadau tymhorau ysgol, byddwn yn gwybod y byddant yn cynnal ymgynghoriad priodol ymlaen llaw. Dylai hyn roi cyfle i farn pob grŵp sydd â diddordeb gael ei hystyried cyn pennu dyddiadau tymhorau. Efallai na fyddai hyn yn bosibl bob amser dan y trefniadau presennol ar gyfer pennu dyddiadau.